COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWYD AR 8ed o EBRILL 2019 YN SWYDDFA'R CYNGOR, NEUADD PONTIETS AM 7.00 O'R GLOCH
Presennol: Geoff Hewitt (Cadeirydd yn y gadair),Ian Evans,Margaret Rees,Linda Williams,Carol Williams,Tyssul Evans,Geraint Rosser,Alan Lewis,Aled Williams a'r Clerc,Glyndwr Prideaux

Ymddiheuriadau: Heddwyn Jones,Tracey James ac Meic Bowen.

2173 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd. Cydymdeimlwyd a Alan Lewis ar glooi ei Fam yn ddiweddar. Hefyd llongyfarchwyd Richard Lewis mab Alan Lewis ar ei ddyrchafiad yn Brif Gwnstabl Heddlu Cleveland.

2174 Cofnodion
Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfod misol diwethaf ar 04/03/2019 fel rhai cywir.

2175 Materion yn codi.
Tud 1. Cofnod Rhif 2140 – Nodwyd bod y gwaith o godi'r Ffens wedi cwblhau.

Gohebiaeth

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

2176 Sioe Bancffosfelen a'r Cylch - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £200 ar ol i ni dderbyn Fantolen Ariannol. .

2177 Eglwys Llangyndeyrn – Llythyr yn diolch am y rhodd.

2178 Neuadd Llangyndeyrn – Llythyr yn diolch am y rhodd.

2179 Ambiwlans Awyr Cymru i Blant – Llythyr yn diolch am y rhodd.

2180 Pwyllgor Lles Llangyndyern – Yswiriant y Parc – Llythyr yn diolch am y rhodd.

2181 Cruse - Llythyr yn diolch am y rhodd.

2182 Eisteddfod Llangollen – Llythyr yn diolch am y rhodd.

2183 Clwb Rygbi Pontiets – Llythyr yn diolch am y rhodd.

Gohebiaeth gyffredinol :-

2184 Grant Thornton – Archwiliad 2018 / 2019- Nodwyd derbyn manylion yr Archwiliad.

Ceisiadau Cynllunio

2185 Ceisiadau Cynllunio
a) Cais Rhif W/38835 - Mr Andrew Long – Highgate, Heol Carway, Pontiets - Troi'r Garej yn Estyniad - - Dim Gwrthwynebiad.

b) APÊL - Cais Rhif W/37863 - Mr Wayne Evans - Plot nes at 1 Maes y Wern, - Tŷ Annedd - Gwrthwynebiad. Ar sail :-
a) Ardrawiad annerbyniol ar drigolion Valley View,
b) Rhy agos i'r Tai yn Valley View a 1 Maes y Wern
c) Mynediad gwael i'r B4317
Mae'r Gwrthwynebiad wedi ei danfon at Yr Arolygiaeth Gynllunio.

d) 139 o Dai Newydd yn Ffoslas – cadrnhawyd enwau'r Hewlydd fel y ganlyn :-
Heol y Plas,

Ffordd y Glowyr,
Clos y Nant.

e) Clwb Cymdeithasol Carwe – Mynegwyd gofid ynglyn a sefyllfa peryglus yr Adeilad. Penderfynwyd gofyn i'r Cyngor Sir symud ynglyn ar achos hwn.

Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r Mis

2186 Derbyniwyd adroddiad ariannol Mis Mawrth 2019.Derbyniwyd argymhelliad y Clerc ein bod yn trosglwyddo gweddillion rhan o'r gyllideb sydd heb eu gwario i'r lein gyffredinol.

Adroddiad Ariannol Misol

2187 Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :-
a) Cyflog y Clerc - £422.81 (Mis Mawrth)
b) Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Mawrth)
c) Cydnabyddiaeth y Syrfëwr - £110.00 (Mis Mawrth)
ch) HMRC (Treth)- £84.40 (Mis Mawrth)
d) Ffon Symudol y Cyngor - £9.98 (Mis Mawrth)
dd) BT – Ffon y Swyddfa - £50.64 (Mis Mawrth)
e) Paula Clarke – Glanhau Toiledau'r Meinciau (Mis Mawrth)- £182.00)
f) Argraffu'r Polisiau - £77.28
ff) EDF - Trydan yn Doiledau'r Meinciau (Mis Mawrth) - £27.96
g) Cyngor Sir Gar – Hanner Golau - £6.79
ng) Stampiau - £15.12
h) Papur Llungopio - £14.25
i) Gwaith wrth Rheilffordd Pontiets - £2000.00
l) Marcus Dininno – Torri Gwair,Carwe - £50.00
m) Safleoedd Ail-gylchu - £500 yr un (2)

2188 Polisi Iaith
Derbyniwyd a nodwyd y Polisi Iaith

2189 Polisi Rheoli Absenoldeb Salwch
Derbyniwyd a nodwyd y Polisi uchod

2190 Polisi a Gweithdrefn Achwyniadau
Derbyniwyd a nodwyd y Polisi uchod

2191 Polisi Iechyd a Diogelwch
Derbyniwyd a nodwyd y Polisi uchod

2192 Polisi Cyfleoedd Cyfartal
Derbyniwyd a nodwyd y Polisi uchod

2193 Asesiad Risg Cyllidol
Wedi trafodaeth lwyr a chlir, cynigwyd gan Linda Williams ac eiliwyd gan Aled Williams ein bod yn derbyn Adroddiad Asesiad Risg Cyllidol am y flwyddyn 2019/2020.

Materion Cynghorwyr

2194 - Ian – Croesfan Ysgol Gwynfryn heb neb yn y Swydd oddiar Nadolig 2018.

2195 - Aled – a) Troedffordd rhwng Maesglas a Maesgwyn angen gwaith arni.

b) Sbwriel ym Maesywern,Carwe yn wael.

Cyfarfod nesaf:- 6ed o Fai 2019 yn Swyddfa'r Cyngor, Neuadd Pontiets am 7.00 o'r gloch. (Yn dilyn y Cyfarfod Blynyddol)

(Cyfarfod Cynllunio am 6.45 o'r gloch)

Llofnodwyd……. CADEIRYDD

Dyddiad……